Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful

**Heol Pantyffyn**
**Twynyrodyn**
**Merthyr Tudfil**
**CF47 0HU**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 433 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 326 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 56 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 11.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 3.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/01/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/11/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Santes Tudful, sy’n cynnwys darpariaeth meithrin ar safle’r Gurnos, yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy’n dathlu cynnydd a chyflawniad yr holl ddisgyblion yn arbennig o effeithiol. Mae ganddi naws gynhwysol a gofalgar. Mae’r pennaeth a’r dirprwy, gyda chefnogaeth ddeallus y corff llywodraethol, yn cynnig arweinyddiaeth glir ac argyhoeddedig ac yn parchu ymdrechion pawb sy’n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion.

Mae ethos yr ysgol wedi seilio’n gadarn ar weledigaeth gytûn, sef ysbrydoli, dysgu a dathlu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf iawn tuag eu dysgu, yn gofalu am eraill ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, eu hysgol a’r ardal leol.

Mae perthnasoedd arbennig yn bodoli rhwng staff a disgyblion. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion o ran ymdrech, cyflawniad ac ymddygiad, ac maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau’n llwyddiannus. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn cyflwyno gweithgareddau symbylus gan ystyried syniadau’r disgyblion yn fwriadus. Maent yn ennyn chwilfrydedd gyda’r disgyblion ieuengaf ac yn defnyddio dulliau holi amrywiol yn effeithiol i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu gallu i ddatrys problemau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd o’u mannau cychwyn gyda’u medrau, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu annibynnol Cymraeg y disgyblion yn datblygu’n ddigon da.

Mae staff yn darparu cefnogaeth a phrofiadau gwerthfawr i hybu lles disgyblion, er enghraifft er mwyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous a bwriadus yn yr awyr agored. Mae’r cyfleoedd hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar agweddau a gallu disgyblion i ymroi’n llawn i’w dysgu.

Mae adeiladu partneriaethau gwerthfawr â rhieni a’r gymuned ehangach yn flaenoriaeth amlwg. Er enghraifft, mae’r ysgol yn croesawu rhieni a gofalwyr i’r ‘Caffis Darllen’ sy’n rhannu gwybodaeth bwysig gyda nhw ac yn hybu a chefnogi eu gallu i helpu eu plant adref. Mae hon yn gryfder arwyddocaol sy’n cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion a’u teuluoedd.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau ysgrifennu annibynnol Cymraeg disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â darparu profiadau hynod o effeithiol i ddisgyblion ddatblygu medrau yn yr awyr agored.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn eu hamser yn yr ysgol gyda medrau sy'n is na'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu hoed. Bron heb eithriad, nid yw disgyblion yn medru siarad Cymraeg ar fynediad i'r dosbarthiadau meithrin. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn hyderus, ac erbyn brig yr ysgol maent yn datblygu'n ddysgwyr aeddfed sy'n deall sut maent yn dysgu orau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r rhai sydd ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol), yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

O oedran ifanc, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn llwyddo i gymhwyso eu medrau llafar i sefyllfaoedd newydd y tu mewn ac allan i'r ystafell ddosbarth. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau gwrando a llafar yn gadarn gan ddangos parodrwydd i sgwrsio am eu tasgau a'u profiadau dysgu gan ddefnyddio iaith bwrpasol. Maent yn ymestyn eu brawddegau'n hyderus, er enghraifft gan ddefnyddio 'oherwydd' i gynnig ymateb mwy manwl. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i siarad Cymraeg yn naturiol wrth weithio a chwarae gyda'u cyfoedion.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol trwy weithgareddau bwriadus a gyda chymorth sy'n eu galluogi i adnabod llythrennau ac adeiladu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda mynegiant addas, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn hunangywiro yn gynyddol hyderus ac yn datblygu eu medrau darllen i bwrpas yn effeithiol trwy ddarllen e-bost parod ac adnabod y nodweddion gwahanol. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn darllen gyda lefel dda o gywirdeb. Maent yn canfod gwybodaeth o destun anghyfarwydd yn hyderus. Mae'r mwyafrif yn darllen gyda mynegiant gan ystyried y gwrandäwr ac yn siarad â brwdfrydedd am eu hoff awduron a llyfrau, gan gynnig rhesymau dros eu dewisiadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau modur mân yn gadarn cyn symud ymlaen at greu marciau'n bwrpasol, er enghraifft gan ddefnyddio deunyddiau naturiol yn yr ardaloedd. Mae hyn yn eu cymell i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu ystod o frawddegau syml ac yn datblygu eu syniadau'n effeithiol gyda chywirdeb cynyddol. Yn nosbarthiadau'r disgyblion hynaf, mae llawer yn dechrau amrywio geirfa a phatrymau brawddegau yn eu gwaith. Maent yn ysgrifennu i bwrpas ar draws y meysydd mewn ystod eang o arddulliau sy'n cynnwys bwrdd stori chwedl Gelert a cherddi am drychineb Aberfan wrth ddilyn strwythur cyson. Er hyn, mae'r defnydd o fframweithiau parod yn eu cyfyngu'n ormodol ar eu gwaith ac nid yw eu medrau ysgrifennu annibynnol yn y Gymraeg wedi datblygu'n ddigon da.

Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn magu hyder ac yn llwyddo i ddeall gwerth rhifau syml wrth iddynt drin a thrafod nodweddion 'Rhif y Dydd'. Maent yn adeiladu'n gyson ar y medrau hyn ac, erbyn Blwyddyn 3, mae disgyblion yn amcangyfrif eu hatebion yn fedrus cyn mynd ati i adio rhifau 3-digid gyda'i gilydd. Mae'r disgyblion hynaf yn dangos hyfedredd cynyddol wrth ddethol a defnyddio'r dull mwyaf addas ar gyfer datrys ystod o gyfrifiadau. Maent yn esbonio a chyfiawnhau eu dewisiadau yn hyderus. Ar y cyfan, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, wrth iddynt adalw eu dealltwriaeth o gymarebau i greu bwydydd newydd ar gyfer taith gofodwraig i'r bydysawd.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu ystod da o fedrau digidol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau trin data'n llwyddiannus, gan greu pictogramau ac yna siartiau bloc gan ddefnyddio meddalwedd pwrpasol. Mae rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio pecyn celf yn grefftus, er enghraifft i greu lluniau o flodau gan efelychu arddull David Hockney. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau siarad yn arbennig o dda trwy eu gweithgareddau digidol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn recordio eu cyfoedion yn cyfleu stori'r geni mewn theatr bypedau yn llwyddiannus. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio technoleg sgrin werdd yn effeithiol i greu fideo am effaith newid hinsawdd, a'r disgyblion hŷn yn disgrifio ffilm boblogaidd, gan weu clipiau fideo at ei gilydd yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu siapiau gan ddefnyddio deunyddiau naturiol fel brigau a dail oddi ar gae'r ysgol. Maent yn mwynhau creu offerynnau cerdd yn yr ardaloedd creadigol yn y dosbarthiadau. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau'n fedrus trwy greu arfbais ar gyfer yr ysgol gyda chrochenwaith a llunio portreadau trawiadol 'Tu ôl i'r llen'.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn o ganlyniad i amrywiaeth o brofiadau pwrpasol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau corfforol yn yr ardal allanol gan gynnwys beicio ac wrth gymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol fel ymarfer a chwarae gêm pêl-rwyd ac elwa o brofiadau ysgogol yn yr awyr agored. Mae llawer yn mynychu clybiau chwaraeon a dawns amrywiol ar ôl ysgol sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hagweddau at bwysigrwydd cadw'n heini.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Ar draws yr ysgol, mae balchder y disgyblion tuag at eu hysgol yn gwbl amlwg, gydag ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu. Maent yn dangos parch, cwrteisi a charedigrwydd tuag at ei gilydd ac oedolion, er enghraifft trwy ddal drws a'u cyfarch â gwên. Mae hyn yn cyfrannu at ethos cyfeillgar a chynnes yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn ymddiried yn y staff.

Mae bron bob un yn ymddwyn yn rhagorol yn ystod eu gweithgareddau, tra'n gweithio'n annibynnol ac wrth chwarae gyda'u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Wrth symud o amgylch yr ysgol, mae bron bob un yn drefnus a synhwyrol gan ddangos hunanreolaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u

dysgu, ac yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at waith newydd. Maent yn ymateb yn bositif i anogaeth a chyngor staff yn ystod y sesiynau dysgu.

Mae staff yn hybu agweddau positif at ymgymryd â phrofiadau newydd yn fwriadus. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo i ddyfalbarhau ac nid oes ganddynt ofn mentro neu geisio unrhyw beth newydd. Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol sy’n arwain at lefel uchel o gymhelliant i gyflawni tasgau gyda brwdfrydedd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwydnwch yn llwyddiannus. Gwneir hyn drwy ddefnydd bwriadus o adnoddau cefnogi fel murluniau, a dulliau penodol fel ‘gofyn i dri ffrind cyn fi’, sef dull i sbarduno disgyblion i chwilota eu hunain am ymatebion i broblemau yn gyntaf.

Mae’r disgyblion yn dechrau arddangos lefel o annibyniaeth yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn wrth iddynt ddatblygu chwilfrydedd tuag at eu dysgu. Mae’r agwedd hon yn datblygu ymhellach wrth i’r disgyblion symud drwy’r ysgol.

Mae’r disgyblion yn cynrychioli eu cyfoedion ar wahanol gynghorau a grwpiau’n fwriadus gan gymryd eu dyletswyddau o ddifri. Enghreifftiau da o hyn yw eu hymrwymiad i redeg y siop ffrwyth gan ddelio ag arian a phennu breintiau amrywiol ar gyfer dull wobrwyo hynod o boblogaidd ar draws pob dosbarth.

Mae disgyblion yn dysgu am eu hawliau mewn gweithgareddau hwylus yn y dosbarthiadau ac mae llysgenhadon yr ysgol yn cyflwyno hawl benodol bob mis mewn gwasanaethau. Mae disgyblion Blwyddyn 3 yn creu gwefan ddeniadol sy’n cynnwys tudalennau i hybu’r hawl i addysg a hawl i fod yn iach. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o hawliau plant.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd hynod o effeithiol o’r ardal allanol. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm mewn modd gwerthfawr ac effeithiol iawn. Yn ystod y sesiynau, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwr uchelgeisiol a medrus sy’n awyddus i ddysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ar safle’r ysgol. Mae’r rhai hynaf yn helpu’r disgyblion ieuengaf i gerdded at eu dosbarthiadau. Mae ganddynt ymwybyddiaeth hynod o gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn deall sut i gadw eu cyfrineiriau yn gyfrinachol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae athrawon yn cyd-gynllunio’n effeithiol i sicrhau bod pob disgybl yn cael profiadau gwerthfawr sy’n cyfoethogi eu gwybodaeth ac adnabyddiaeth drylwyr o’r ardal leol a thu hwnt. Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae egwyddorion dysgu sylfaenol wedi eu gwreiddio’n gadarn. Mae bron bob gweithgaredd yn yr ardaloedd yn datblygu annibyniaeth disgyblion yn fedrus, gan gynnwys y ddarpariaeth meithrin ar safle’r Gurnos.

Wrth i’r disgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r profiadau dysgu sy’n cael eu cynllunio’n ddiddorol ac yn addas ar gyfer eu hoed a’u gallu. Yn ogystal â hyn, mae’r gweithgareddau’n hyblyg ac mae’r athrawon yn addasu’r profiadau i gynnwys ymatebion disgyblion ar gychwyn thema ac yn ystod sesiynau dysgu. Mae’r

cynlluniau cynhwysol yn hyrwyddo cyfle teg i'r holl ddisgyblion elwa ar brofiadau gwerthfawr, gan gynnwys disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ag ADY. Cymreictod yw un o flaenoriaethau pwysig yr ysgol sy'n amlwg i'r holl staff a disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn falch o'u hiaith, eu gwreiddiau a'u treftadaeth. Wrth astudio'r thema 'Perthyn', mae cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion astudio elfennau o ddiwylliant, dysgu am gymeriadau dylanwadol a mannau nodedig yn ardal Merthyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol ac anffurfiol yn fwriadus.

Mae athrawon yn cynnig arweiniad clir ac effeithiol yn ystod tasgau dysgu 'Teithiau Tudful' ac yn darparu'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau'n gyson ac ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn cysoni hyn trwy gydweithio gan ddefnyddio dulliau cynllunio ysgol gyfan yn effeithiol i sicrhau nad oes bylchau yn y ddarpariaeth. Er hyn, ychydig o gyfleoedd sydd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn annibynnol.

Mae'r addysgu a'r profiadau dysgu'n rhoi blaenoriaeth glir ar gyflwyno cwricwlwm bwriadus mewn modd ysgogol. Mae gwybodaeth am ddisgyblion yn cael ei defnyddio'n effeithiol i olrhain eu cynnydd yn ôl deilliannau'r cwricwlwm er mwyn arwain y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r holl staff yn rhoi pwyslais ar asesu cynnydd disgyblion yn ystod sesiynau gan gynnwys ymateb i'w gwaith ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ystyried eu dysgu yn y 'gorsafoedd gwerthuso' a thrwy ddefnyddio disgwyliadau i gwblhau tasgau'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o ymateb i sylwadau staff i wirio a gwella'u gwaith yn hyderus.

Mae staff yn cymell disgyblion yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol o oedran cynnar. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl ac maent yn annog parch a chwrteisi ganddynt. Mae athrawon a chymorthyddion yn annog ymddygiad cadarnhaol disgyblion yn hynod effeithiol ac yn trin pob disgybl yn gyfartal ac â pharch addas. Gwneir defnydd pwrpasol o ddull gwobrwyo digidol i ddathlu llwyddiant. O ganlyniad, mae gan bron bob disgybl agweddau iach at eu dysgu.

Caiff disgyblion eu cefnogi'n hynod effeithiol gan dîm medrus o gymorthyddion sy'n annog disgyblion i ddysgu'n effeithiol, yn enwedig yn yr ardal tu allan. Mae gan y disgyblion fynediad i adnoddau ysgogol sy'n hyrwyddo medrau ieithyddol a rhif ac sy'n atgyfnerthu'r dysgu'n effeithiol. Mae staff yn gwneud defnydd hynod bwrpasol o'r ardaloedd allanol ehangach i hyrwyddo'r dysgu. Mae disgyblion yn dysgu am eu hamgylchfyd naturiol tra'n datblygu eu medrau. Mae gweithgareddau awyr agored yn hyrwyddo medrau corfforol a lles y disgyblion yn hynod o fwriadus. Enghraifft dda o hyn yw cyfle i ddisgyblion ddefnyddio map cyfesurynnau a chwmpawd i ganfod llefydd penodol o gwmpas tir yr ysgol.

Mae staff yn defnyddio ymweliadau addysgol yn hynod effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o faes dysgu penodol, er enghraifft trwy ymweld ag Aberfan i sbarduno cyfansoddi cerddi Saesneg am y trychineb ddigwyddodd yno. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion astudio ac efelychu gwaith celf arlunwyr enwog. Mae'r disgyblion hynaf yn elwa o fynychu teithiau preswyl i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac i ddysgu am ddaearyddiaeth gogledd Cymru.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan yr ysgol naws gynhwysol a gofalgar. Mae perthnasoedd gwaith arbennig yn bodoli rhwng yr holl staff a disgyblion. Mae staff yn trin disgyblion gyda pharch ac yn gosod disgwyliadau uchel o ran hybu cwrteisi. Maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus trwy ddilyn cod ymddygiad 'Ffordd Santes Tudful'. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn ardderchog.

Mae staff yn darparu ystod eang o raglenni cymorth i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau o ddisgyblion. Maent yn sesiynau hwyliog, aml-synhwyraidd a llawn egni sy'n llwyddo i ddal dychymyg y disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymarfer sillafu geiriau'r wythnos trwy osod pegiau yn ôl trefn gywir neu i ddefnyddio'u bysedd i ysgrifennu mewn blawd.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Mae gan y cydlynydd ADY (CADY) ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion unigol ac mae'n trefnu cefnogaeth ar eu cyfer yn llwyddiannus gan gydweithio'n fwriadus gydag asiantaethau allanol, lle bo'n briodol. Mae'r CADY yn darparu hyfforddiant pwrpasol i staff. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn ymateb i ofynion y ddeddf anghenion dysgu ychwanegol a threfniadau tribiwnlys yn effeithiol. Cynhelir cyfarfodydd adolygu anghenion unigolion mewn modd cynhwysol sy'n cynnwys mewnbwn amlwg gan y disgybl.

Cefnogir lles emosiynol disgyblion yn effeithiol mewn gwersi, er enghraifft wrth drafod effaith bwlio a sut gall y disgyblion helpu eu cyfoedion pan mae bwlio'n digwydd. Yn ogystal, mae darpariaeth bwrpasol yn cael ei chynnig sy'n cefnogi lles grwpiau bach o ddisgyblion. Mae'r 'Cwtsh' yn fan croesawgar sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus wrth ddilyn rhaglenni penodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Maent yn cynnwys dadansoddi cynnydd unigolion o ran eu medrau darllen a rhifedd, er mwyn adnabod yr angen i ddarparu cymorth ychwanegol yn gynnar. Yn ogystal, maent yn olrhain cynnydd y disgyblion sy'n cael cymorth trwy raglenni penodol yn ofalus ac yn dechrau dadansoddi'r wybodaeth er mwyn hunanwerthuso'r ddarpariaeth yn drylwyr.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am gadw'n iach trwy eu gwaith cwricwlaidd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn creu gwefan i egluro beth yw iechyd a lles, gan gyflwyno dulliau i edrych ar ôl eu lles ein hunain, fel mynd am dro, coginio, neu wrando ar gerddoriaeth. Cânt gyfleoedd pwrpasol i ddysgu am gadw'n ddiogel ar-lein, er enghraifft i wybod am bwysigrwydd peidio â dilyn dolenni anadnabyddus, ac allgofnodi cyn gadael gliniadur.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u dychymyg ac ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol trwy astudiaethau allgyrsiol ac ymweliadau cyffrous. Mae staff yn trefnu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gystadlu mewn gemau tîm.

Ar frig yr ysgol, maent wedi dechrau datblygu'r ddarpariaeth 'addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' drwy ddysgu am arwyddocâd mis 'pride' a chodi ymwybyddiaeth

disgyblion o sut gall pobl fod yn wahanol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes cymunedau pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys dysgu am ddylanwad Betty Campbell yn sefydlu ysgol yng Nghaerdydd a hanes Martin Luther King.

Mae staff yn darparu cyfleoedd addas i grwpiau o ddisgyblion gymryd cyfrifoldebau am agweddau o fywyd yr ysgol sy'n eu paratoi i fod yn ddinasyddion ymroddgar. Er enghraifft, mae'r Dewiniaid Digidol yn rhedeg gorsaf radio'r ysgol yn frwdfrydig. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 ymchwilio i'r hawl i gael mynediad at ddŵr a bwyd. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i ddisgyblion ddysgu am fyd gwaith yn ystod pythefnos sgiliau blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau a gweithdai gyda nifer o bobl wadd. Er enghraifft, cynhelir sesiynau gwaith coed, codi ymwybyddiaeth o sut i gynnal a chadw ceir, a dysgu am y math o swyddi sydd ar gael mewn ysbyty.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu sy'n ymateb i'r gofynion. Mae'r staff yn cael hyfforddiant diogelu addas yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd, lle bo angen. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer hyrwyddo presenoldeb. Mae arweinwyr yn dadansoddi data'n briodol ac yn cydweithio'n agos â'r swyddogion lles addysg, pan mae angen.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd cadarn ac ysbrydoledig. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer pob disgybl o fewn cymuned ddysgu hapus ble mae llais a barn pawb yn bwysig. Mae'r weledigaeth hon wedi ei rhannu'n llwyddiannus â disgyblion, staff a rhieni, sef i ysbrydoli, dysgu ac i ddathlu. Mae gan y pennaeth a'r dirprwy bennaeth ddisgwyliadau uchel iawn o'u hunain a'r staff ac yn dyheu i bob disgybl wneud cynnydd cryf yn eu medrau wrth gael mwynhad o'u profiadau dysgu. O ganlyniad, mae awyrgylch o fwrlwm, chwilfrydedd a chyffro yn treiddio trwy'r ysgol. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus ac mae cadw plant yn ddiogel yn flaenoriaeth amlwg. Yn sgil hyn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a chysurus yn eu gwaith a'u chwarae.

Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi gan ddirprwy bennaeth effeithiol a thîm o staff ymroddgar ac angerddol sy'n eiriolwyr diflino dros y disgyblion. Maent yn gweithio'n gydwybodol er mwyn cyrraedd eu nod cytunedig o ddarparu cwricwlwm cyfoethog sy'n ysbrydoli ac ennyn diddordeb pob disgybl. Mae trefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae cyswllt clir rhwng eu targedau datblygu a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyn oll yn cael ei gefnogi gan gyfleoedd a gweithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer pob aelod o staff. Er enghraifft, mae staff addysgu yn cydweithio'n effeithiol o fewn yr ysgol er mwyn gwella effaith asesu ar safonau a chynnydd disgyblion. Tu hwnt i'r ysgol, mae staff yn mynd ati i ddatblygu adnoddau gwerthfawr ar y cyd ag ysgolion lleol ar gyfer hybu ymddygiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion a'r parch y maent yn ei ddangos at eu dysgu, eu hunain a'u cyfoedion.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr, staff a disgyblion yn defnyddio ystod o dystiolaeth

uniongyrchol yn bwrpasol er mwyn cynllunio camau datblygu'r ysgol. Maent yn dadansoddi'r dystiolaeth yn bwrpasol ac, o ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a beth sydd angen ei wella. Maent yn llunio cynlluniau gwella manwl sy'n canolbwyntio'n ddeallus ar y meysydd sydd angen eu datblygu ynghyd â mynd i'r afael a blaenoriaethau gwella cenedlaethol. Er enghraifft, trwy ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at weithredu gofynion Cwricwlwm i Gymru a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau cynhwysfawr ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd, gyda'r trefniadau hyn yn cynnwys bob aelod o staff.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u gwaith a'u cymuned. Maent yn ymgymryd ag ystod bwrpasol o weithgareddau monitro, er enghraifft drwy graffu ar waith a chynnal arolygiadau o ddiogelwch y safle. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth drylwyr am gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i herio arweinwyr ynghylch safonau, cynnydd a lles y disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cydweithio'n agos â'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf priodol o adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ofalus er mwyn darparu rhaglenni sy'n cefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd ac emosiynol disgyblion. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae adeiladu partneriaethau gwerthfawr â rhieni a'r gymuned ehangach yn flaenoriaeth amlwg. Mae hon yn gryfder arwyddocaol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion a'u teuluoedd. Er enghraifft, mae'r ysgol yn croesawu rhieni a gofalwyr i'r 'Caffis Darllen' sy'n gyfle i rhannu gwybodaeth bwysig ac yn hybu a chefnogi eu gallu i helpu eu plant adref. Yn ogystal, mae disgyblion sy'n rhan o'r grŵp 'Dewiniaid Digidol' yn ymweld â chartref yr henoed lleol . Yno, maent yn arddangos eu medrau digidol wrth iddynt gynorthwyo'r trigolion ynglŷn â sut i ddefnyddio dyfais ddigidol ar gyfer cwblhau eu siopa ar-lein.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   25/01/2024